**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd - Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd,
CF99 1NA

10 Rhagfyr 2019

Annwyl Gadeirydd

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 18 Tachwedd 2019, cytunais i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor fel a nodir isod.

***Y Bwletin Ystadegau Gwastraff Trefol diweddaraf i alluogi Aelodau i weld y data diweddaraf ar faint o wastraff a deunyddiau y gellir eu hailgylchu a gasglwyd***

Gellir gweld y ffigurau ailgylchu a gyhoeddwyd ar gyfer chwarter cyntaf 2019 (Ebrill-Mehefin) ar y ddolen ganlynol. Ar 67%, mae'r gyfradd ailgylchu yr uchaf ar gyfer ailgylchu trefol chwarterol i'w gofnodi erioed yng Nghymru.
https://llyw.cymru/adroddiad-rheoli-gwastraff-trefol-awdurdod-lleol-ebrill-i-mehefin-2019?_ga=2.7278192.37644039.1575993070-275369678.1569850781

Rwyf hefyd yn atodi dolen at y data ailgylchu ystadegol blynyddol ar gyfer 2018-19.
https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/llesiant-cymru-2018-474.pdf

***Manylion y dull a gymerwyd gan Gyngor Abertawe wrth gyhoeddi hysbysebion i ddeiliaid tai o dan Adran 46 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990***

Mae'n bosibl gweld manylion cynllun "Nid fan hyn" Cyngor Abertawe, gan gynnwys y daflen sy'n cael ei defnyddio gan y Cyngor, drwy'r ddolen ganlynol.
https://www.abertawe.gov.uk/nidfanhyn

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Er gwybodaeth, rwyf hefyd yn atodi dolen at erthygl am y cynllun a ymddangosodd yn The Guardian yn gynharach eleni.
https://www.theguardian.com/environment/2019/mar/10/rubbish-police-check-bin-bags-drive-up-recycling-rates-swansea-fines

Mae croeso ichi gysylltu os y gall fy nhîm neu minnau helpu gydag unrhyw beth arall.

Gyda phob dymuniad da dros yr ŵyl.

Yn gywir



**ANDREW SLADE**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol